**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 HYDREF, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF COED-Y-BRYN, COED-Y-BRYN am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd), Cyng. Roger Davies, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Mark Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng. Teifi Evans, Cyng. Rob Jones, Cyng Ceri Jones a Chyng. Siân Williams.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Teifi Evans, Rob Jones, Ceri Jones a Siân Williams.<br><br>Nid oedd Cyng. Llŷr Evans yn bresennol ac nid oedd wedi anfon ymddiheuriadau. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Dim. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod mis Medi | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Medi. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Asesiad Risg – newidir y dyddiad adolygu i fis Hydref 2023 ac mae hon yn ddogfen fyw. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Sharon Thomas bod cofnodion cyfarfod mis Medi yn gywir, ac eiliwyd y cynnig gan Gyng. Roger Davies. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Yn dilyn marwolaeth y Frenhines, Elizabeth II ar 8 Medi 2022, a'i hangladd ar 19 Medi 2022, adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis y cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddi ym Mhenmorfa, Aberaeron ar 11 Medi ar gyfer Brenin Charles III.<br>Yn bresennol oedd Rowland Rees-Evans – Uchel Siryf, a Sara Edwards – Arglwydd Raglaw, Cynghorwyr Sir Ceredigion, Swyddogion, Staff ac aelodau'r cyhoedd.<br>Nodwyd hefyd bod gan Gymru Dywysog a Thywysoges Cymru newydd – Tywysog William a Thywysoges Kate.<br><br>Nododd Cyng. Lewis hefyd bod y grant costau byw wedi dod i ben, ond bod cynllun Dewisol newydd ar agor tan fis Chwefror 2023, lle y mae'n rhaid i unigolion wneud cais. Mae cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ar gael hefyd.<br><br>CLIC – yn y dyfodol agos, dylai'r holl faterion y bydd cynghorau cymuned yn adrodd amdanynt ar y system gael diweddariad cryno misol am faterion heb eu datrys eto. | | |

| | |
|---|---|
| 7. Gohebiaeth | Cafwyd hysbysiad gan Gyngor Sir Ceredigion ynghylch ffurflenni Praesept 2023-24, a oedd yn ein hysbysu y dylai'r ffurflenni fod yn barod erbyn dechrau mis Rhagfyr.<br><br>Cafwyd neges e-bost gan yr Urdd yn gofyn am gyllid. Bydd y clerc yn ymateb trwy anfon ffurflenni cais am grant. **Clerc** |
| 8. Cynllunio | A220675 – Blaenffos, Bwlch-y-groes. Trafodwyd y mater ac roedd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol o blaid y cais ar yr amod y dilynir yr holl reolau a rheoliadau.<br><br>A220699 – Goytre, Ffostrasol. Trafodwyd y mater hwn unwaith eto ac roedd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol o blaid y cais ar yr amod y byddai'r holl reolau a rheoliadau yn cael eu dilyn. |
| 9. Ariannol | **Llofnodwyr Nat West** – roedd Cyng. Sharon Thomas wedi gwneud ymholiadau gyda'r banc ynghylch diweddaru'r llofnodwyr newydd, ond yn anffodus, nid yw'r cofnodion wedi cael eu diweddaru.<br><br>**Taliadau** HMRC - £43.40 (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £173.80<br><br>Llofnododd Cynghorwyr Emyr Jones a Roger Davies y sieciau uchod yn ystod y cyfarfod. |
| 10. Materion Ardal | **Ffostrasol** – Mae'r prif gyflenwad dŵr yn broblem sy'n parhau.<br><br>Mae Ryland Teifi yn trefnu cyngerdd er cof am y diweddar Garnon Davies a Tresi Davies yng Nghlwb Rygbi Castellnewydd Emlyn ar nos Wener 4 Tachwedd. Bydd y tocynnau yn £10. Bydd elw y noson yn mynd i achos Canser y Coluddyn.<br><br>**Coed-y-bryn –** cynhaliwyd bore Coffi McMillan llwyddiannus yn y neuadd, a chodwyd £850 ar gyfer yr elusen.<br><br>**Gwobrau Dewi Sant** – y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fydd 20.10.22<br><br>**Cynghorydd Newydd** – cafwyd llythyr gan Mrs. Carol Davies, Rhos Awel, Heol y Ffos, Ffostrasol yn mynegi diddordeb mewn ymuno â Chyngor Cymuned Troedyraur fel Cynghorydd. Cytunodd yr holl Gynghorwyr dderbyn ei chais ac anfonir llythyr at Mrs. Carol Davies yn ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf (Tachwedd). **Clerc** |
| 11. Clerc Newydd | Hysbyswyd y cyfarfod gan y Cadeirydd bod Mrs. Rhian Jones, Derw Teifi, Ffordd Aberteifi, Castellnewydd Emlyn wedi mynegi diddordeb yn y swydd, a chytunodd pawb a oedd yn bresennol. Bydd y Cadeirydd yn ei gwahodd i'r cyfarfod misol nesaf a bydd y Clerc presennol yn mynychu'r cyfarfod nesaf er mwyn ei chysgodi. |
| 12. Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 1 Tachwedd am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Rhydlewis. |

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.00 p.m.

| | | |
|---|---|---|
| 13. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Praesept 2023/24<br>Materion Ardal –<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 14. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 1 TACHWEDD, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Rhydlewis. |